Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Swydd-ddisgrifiad Athletau Cymru

Teitl Swydd:	**Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata** **Parhaol**, Llawn amser – rhan amser wedi'i ystyried **£27k to 32k pa**, llawn amser
Atebol i:	Pennaeth Gweithrediadau
Lleoliad:	Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
Cyfrifoldebau:	Cynyddu proffil gweithgareddau Athletau yng Nghymru. Hyrwyddo ac eirioli dyheadau, strategaethau ac uchafbwyntiau'r sefydliad i bob rhanddeiliad allweddol. Annog gwelliannau parhaus ym mhob agwedd o'r gwaith o gyfathrebu. Gosod targedau, monitro gwaith a gwerthuso'r canlyniadau er mwyn sicrhau bod amcanion Athletau Cymru'n cael eu cyrraedd.
Buddion:	cyfraniadau cyfatebol i gynllun pensiwn cwmni mynediad i gyfleusterau campfa ac athletau ar y safle Gwyliau taledig hael (up to 28 days) ynghyd â wyth gwyliau banc â thâl. Gweithio hyblyg / anghysbell wedi'i ystyried. Mae Athletau Cymru'n hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad personol parhaus.

Cyfrifoldebau Allweddol:

Allanol

- Creu a gweithredu strategaeth gyfathrebu rhwng Athletau Cymru a'i aelodau/clybiau
- Ymgysylltu â darparwyr cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn datblygu cysylltiadau cryf a sicrhau proffil uchel i'r sefydliad
- Rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o sylw i bob gweithgaredd cysylltiedig ag athletau mewn perthynas â pherfformiad, cyfranogiad, iechyd a lles, yn ogystal ag amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

- Rheoli gwefannau Athletau Cymru a Rhedeg Cymru
- Cynorthwyo aelod-glybiau i greu gwefan, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a llwybrau cyfathrebu yn unol â chynllun moderneiddio'r clybiau
- Creu a datblygu gwefan gwbl ddwyieithog yn raddol a sicrhau bod pob datganiad a wneir gan Athletau Cymru i'r wasg yn gwbl ddwyieithog yn unol â chynllun gweithredu'r sefydliad ar gyfer yr iaith Gymraeg

Mewnol

- Cynorthwyo i greu a gweithredu strategaeth gyfathrebu fewnol rhwng adrannau Athletau Cymru ac amrywiol bwyllgorau
- Ar y cyd gydag arweinwyr yr adrannau, datblygu a chyflwyno cynllun marchnata ac eirioli blynyddol, wedi ei deilwra'n arbennig, ar gyfer bob adran
- Darparu hyfforddiant parhaus yn y cyfryngau i'r tîm rheoli, gwirfoddolwyr allweddol a phob athletwr a gefnogir yn ariannol - gan sicrhau bod y sgiliau a'r hyder gan y gweithlu i gyflwyno negeseuon priodol pan fo gofyn iddynt wneud hynny
- Rheoli'r gyllideb farchnata a chyfathrebu
- Bod yn rheolwr llinell i dîm o swyddogion cyfathrebu gweithredol a gwirfoddol

Corfforaethol

- Datblygu negeseuon corfforaethol Athletau Cymru a Rhedeg Cymru
- Ar y cyd â'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Pennaeth Gweithrediadau, datblygu strategaeth farchnata sy'n marchnata'r sefydliad yn effeithiol er mwyn ateb ei amcanion a chynyddu ei botensial i'r eithaf er mwyn cynyddu incwm masnachol
- Cynorthwyo i weithredu pob un o'r cytundebau nawdd a phartneriaeth sylweddol
- Arwain ar bob un o brosiectau mewnwelediad ac ymgynghori Athletau Cymru a Rhedeg Cymru

Rhaglen Redeg Gymdeithasol Rhedeg Cymru

- Gwella a datblygu strategaeth gyfathrebu Rhedeg Cymru
- Parhau i ddatblygu brand Athletau Cymru a Rhedeg Cymru - gan sicrhau defnydd cyson yn yr holl ddeunydd cyfathrebu
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau rhedeg yn cael eu hyrwyddo'n unol â'r agenda Cenedlaethol ar gyfer gweithgaredd corfforol.

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

O.N Bydd rhaglenni gwaith gweithwyr yn cael eu gosod gan gynllun gweithredol Athletau Cymru. Bydd perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn cyflwyniad y cynllun hwn a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunir arnynt ar y cyd ar gychwyn y cyfnod adolygu.

Manyleb y person:

	Hanfodol	**Dymunol**
Cymwysterau	▪ Gradd mewn busnes, marchnata, cyfathrebu neu gyfuniad cyfwerth o addysg, hyfforddiant ac arbenigedd ▪ Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus	
Gwybodaeth a phrofiad	▪ Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chynhyrchu gwybodaeth ddadansoddol ▪ Profiad o ddatblygu ymgyrchoedd a pharatoi gwybodaeth gefnogol ▪ Cysylltiadau gyda phrif gyrff y cyfryngau yng Nghymru a'r DU ▪ Profiad o greu gwefannau a'r systemau ▪ Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm ▪ Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio *Google Analytics* neu offer gwerthuso tebyg ▪ Profiad o reoli cyllideb	▪ Gwybodaeth am bob un o'r disgyblaethau athletaidd ▪ Gwybodaeth am athletau rhyngwladol ▪ Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd / partneriaid ▪ Profiad o ysgrifennu adroddiadau i'r cyfryngau ▪ Gwybodaeth am y Llywodraeth, yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sgiliau	▪ Gallu teithio ledled Cymru (a'r DU yn ôl yr angen). ▪ Sgiliau TG gan gynnwys defnyddio *Microsoft Office*, e-bost a'r rhyngrwyd. ▪ Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig ▪ Sgiliau trefnusrwydd a	▪ Gallu gweithio dan bwysau ▪ Gallu gweithio o fewn amser penodol ▪ Gallu rhoi sylw i fanylder ▪ Gallu siarad a chyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg ▪ Rhywfaint o brofiad o Reoli prosiectau

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

	gweinyddol ardderchog ▪ Profiad o reoli gwefan	
Rhinweddau Personol	▪ Sgiliau cyfathrebu ardderchog ▪ Digon o hunanysgogiad a gallu gweithio'n annibynnol ▪ Aelod da o dîm gyda pharodrwydd i arwain ▪ Hyblyg a gallu addasu'n unol ag unrhyw newid yn y gwaith ▪ Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill ▪ Gallu cydweithio a chyfathrebu â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd	

Y Broses Benodi: I wneud cais, lawrlwythwch y swydd-ddisgrifiad a'r dogfennau cais o wefan Athletau Cymru www.welshathletics.org

Cysylltwch â James Williams, Pennaeth Gweithrediadau, ar 02920 644870 , os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu anfonwch e-bost i: James.williams@welshathletics.org.

Anfonwch ffurflenni cais i Andrew Thomas, Rheolwr Swyddfa, Athletau Cymru Cyf, Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwyth, Caerdydd, CF11 8AZ, neu mewn e-bost i: andrew.thomas@welshathletics.org

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 4ydd Hydref 2017

Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 9fed Hydref 2017